Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Dechrau Disglair**
**Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr**
**Heol Bethel**
**Cwmtwrch**
**Abertawe**
**SA9 2PP**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/06/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Dechrau Disglair, sy’n rhedeg dan arweiniad Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr, Cwmtwrch, yn awdurdod lleol Powys. Mae ar agor am bum dydd yr wythnos. Mae gan y lleoliad dau ymarferwr llawn amser a dau rhan amser.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu iddo gymryd hyd at 25 o blant mewn sesiwn. Mae'n derbyn plant tair blwydd oed. Mae’r awdurdod lleol yn ariannu’r holl blant.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig. Mae ychydig iawn o blant yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ei swydd ym mis Medi 2012. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Ionawr 2015. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- cynnydd cadarnhaol gan blant ym mhob maes dysgu
- brwdfrydedd gan blant tuag at ddysgu
- ymddygiad cyfrifol gan blant
- cynllunio da o brofiadau dysgu
- y cwricwlwm yn eang, cytbwys a diddorol
- addysgu effeithiol
- gofal ac arweiniad diwyd a gofalus
- perthynas dda iawn rhwng oedolion a phlant
- defnydd rhagorol o adnoddau hygyrch, tu mewn ac yn yr awyr agored

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- cyfarwyddyd clir i waith y lleoliad gan yr arweinydd
- systemau hunanwerthuso effeithiol sy'n cyfatebu'n dda i'r targedau yn y cynllun datblygu pwrpasol
- agweddau cadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant ymarferwyr
- defnydd effeithiol o gymorth gan asiantaethau allanol
- partneriaethau ardderchog gyda'r ysgol ac asiantaethau allanol
- gwaith y rheolwyr gweithgar a chefnogol yn heriol a thrylwyr
- defnydd synhwyrol o gyllid

## Argymhellion

A1 Sicrhau fod asesiadau dyddiol yn arwain yn uniongyrchol tuag at y camau nesaf yn dysgu'r plant

A2 Mireinio'r cynllunio o dasgau ffocws i herio plant yn unol â'u galluoedd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyflawni safonau da erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad, o gofio’u mannau cychwyn. Maent yn gwneud cynnydd cyson wrth iddynt ddatblygu eu medrau mewn tasgau pob dydd a chymhleth, yn enwedig eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu teimladau a'u hemosiynau’n dda drwy chwarae rôl yn y jyngl a’r caffi, cynnal trafodaethau synhwyrol gydag oedolion a'i gilydd am lyfrau, trychfilod a phryfed a thrwy gydweithredu mewn chwarae brochus ar feiciau yn yr ardal allanol.

Mae bron pob plentyn yn siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod pobl eraill yn eu deall wrth ymateb i gwestiynu oedolion a chymheiriaid yn ystod tasgau. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan eraill ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae hyn yn amlwg iawn wrth iddynt reoli cyfeiriad teganau electronig ac wrth iddynt ddefnyddio sisyrnau i adeiladu tai i drychfilod o focsys cardbord.

Mae llawer o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau a mwynhau eu cynnwys wrth drafod cymeriadau a digwyddiadau’n hyderus gydag oedolion a phlant eraill. Maent yn trin llyfrau yn yr ardaloedd darllen tu mewn a thu allan fel darllenwyr naturiol. Mae'r rhan fwyaf yn dilyn storïau a ddarllenir iddynt yn dda. Maent yn ymateb yn synhwyrol i gynnwys y stori. Er enghraifft, maent yn trafod y môr a'i greaduriaid yn dda, gan fynegi eu teimladau yn glir, ynglŷn â sut mae creaduriaid penodol fel siarcod yn gwneud iddynt deimlo.

Mae mwyafrif y plant yn defnyddio iaith soffistigedig yn bwrpasol mewn chwarae digymell a strwythuredig wrth goginio yn y gegin fwd ac arogli perlysiau. Wrth astudio storïau mewn llyfrau, maent yn adnabod nodweddion personoliaeth cymeriad ac yn gallu egluro a yw cymeriad yn 'dda' neu'n 'ddrwg' a ‘hapus’ neu’n ‘drist’.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn arbrofi gyda gwneud marciau’n effeithiol. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu trwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent a sialc. Maent hefyd yn nodi ar glipfwrdd y deunyddiau sydd angen i gwblhau gwaith yn yr ardal adeiladu. Mae lleiafrif o'r plant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau’n annibynnol ac mewn ffurf adnabyddus wrth drin pensiliau a chreonau. Mae mwyafrif y plant yn egluro diben ysgrifennu yn y cyd-destun cywir. Mae llawer yn adnabod eu henwau eu hunain ac eraill, trefnu llythrennau’n hyderus, ac yn rhannu syniadau’n ystyrlon am yr hyn y maent yn ceisio ei esbonio neu gofnodi ar bapur.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau perthnasol. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrif, adnabod ac enwi rhifau i ddeg yn hyderus ac mae ychydig yn cyfrif i 20 ac ymhellach. Mae lleiafrif o blant yn deall yn glir sut i ddechrau bondio rhifau at ddeg gan ddefnyddio eu bysedd eu hunain a thrwy drefnu gwrthrychau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol

i ddatrys problemau ymarferol yn effeithiol, er enghraifft, wrth rifo hwyaid mewn dŵr gan ddefnyddio rhwydi a chanu rhifau o un i ddeg mewn caneuon wrth gyfrif bananâu. Gyda chefnogaeth, mae mwyafrif y plant yn deall yn glir sut i restru rhifau yn eu trefn o gyntaf i bumed.

Mae bron pob plentyn yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol wrth chwarae gyda'i gilydd, er enghraifft, wrth iddynt gymharu gwrthrychau o ran hyd, uchder, pwysau neu gynhwysedd. Maent hefyd yn defnyddio rhifau'n ymarferol a'n llwyddiannus wrth drafod 'llai na' a 'mwy na' wrth gymharu siapiau dau a thri-dimensiwn. Mae bron pob un plentyn yn grwpio gwahanol fathau o wrthrychau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir. Maent yn trafod gwahanol siapiau yn synhwyrol wrth ddatrys posau siâp a chreu rhifau allan o glai wrth ddilyn patrymau rhif.

Mae bron pob un plentyn yn gwrando ar gerddoriaeth â mwynhad ac yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi. Maent yn cydweithio'n hyderus wrth greu cerddoriaeth tu allan wrth ddefnyddio gwrthrychau bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o blant wedi datblygu medrau meddwl da ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, maent yn gweithio gydag eraill yn ddeallus wrth dorri sbageti, gwehyddu a phlannu hadau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio technoleg yn addas wrth ddefnyddio llechi electronig ac mewn gweithgareddau bob dydd fel defnyddio ffonau symudol, teganau electronig a chamerâu. Mae bron pob un plentyn yn deall beth i'w wneud pan gyfeiriwyd yn y Gymraeg ac mae tua hanner yn defnyddio'r Gymraeg heb anogaeth oedolyn. Maent yn canu hwiangerddi a chaneuon yn y Gymraeg yn frwdfrydig.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn, yn unol â'u hoedran, â dealltwriaeth dda o sut gallant gadw'n iach. Maent yn golchi eu dwylo'n drylwyr cyn bwyta'u byrbrydau ac yfed. Maent yn gwneud hyn heb lawer o anogaeth. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda bod diet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau. Maent yn egluro'n ddeallus bod ymarfer corff yn eich cadw'n heini a bod gweithgareddau corfforol fel gyrru beiciau a hel swigod yn gwneud i'ch calon guro'n gyflymach.

Mae bron pob un plentyn yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn gwrtais ac yn ymateb gyda pharch at oedolion a'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau da o hunanhyder, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer amser byrbryd ac wrth wisgo eu hunain yn annibynnol ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.

Mae bron pob un plentyn yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau yn y meysydd dysgu tu mewn a thu allan a rhannu a gweithio'n synhwyrol gyda chyfoedion. Mae bron pob un plentyn yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd yn y lleoliad a phan fyddant yn gadael.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau a dysgu newydd. Maent yn ymwybodol o anghenion eraill ac yn dangos parch atynt wrth rannu mewn tasgau gan ddefnyddio dŵr, glud a phaent ac wrth olchi eu dwylo cyn byrbrydau. Mae llawer o blant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae bron pob un plentyn yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac maent yn awyddus i drafod eu hoff weithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion a bod ganddynt yr hawl i fynegi barn, er enghraifft, wrth benderfynu aros ar dasg ffocws dan do neu i ymuno mewn chwarae yn yr awyr agored ac wrth iddynt gynllunio themâu gyda'r oedolion. O ganlyniad, mae bron pob un plentyn yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, ymgysylltu a ffocws.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu'r cwricwlwm yn effeithiol ac mae'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae'r profiadau dysgu yn targedu anghenion a diddordebau plant yn llwyddiannus ac yn eu hysgogi i ddysgu'n bwrpasol. Mae'r plant yn cymryd rhan yng nghynllunio a mynegi eu diddordebau yn yr holl themâu, sy'n cynnwys 'Y Gaeaf' a 'Thrychfilod'. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at eu cymhelliant.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu'n drwyadl. Mae themâu a gweithgareddau'n cael eu trafod yn wythnosol mewn cyfarfodydd ymarferwyr ac mae'r arweinydd a'r dirprwy arweinydd yn cynllunio gweithgareddau'r thema. Maent yn rhannu'r gweithgareddau hyn gydag ymarferwyr a phlant, sy'n cyfrannu eu syniadau i gyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach. Mae'r ymarferwyr felly, yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau hyblyg ac arloesol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio o dasgau ffocws bob amser yn herio plant digon yn ôl eu galluoedd.

Mae'r profiadau dysgu ysgogol, sy'n cynnwys heriau â synau'r jyngl dan ganopi, a thasgau corfforol trwy ddefnyddio offer anturus awyr agored yr ysgol, yn darparu dilyniant a pharhad yn dysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn herio pob plentyn ar y cyfan ym mhob maes dysgu, yn enwedig mewn tasgau llythrennedd a rhifedd. Mae'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant. Fodd bynnag, nid yw'n cysylltu'n gyson bob tro â strategaethau asesu'r lleoliad i dargedu'r camau nesaf yn dysgu'r plant.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i blant i ddatblygu mewn i ddysgwyr annibynnol. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol, meddwl a chreadigol y plant yn ddeallus. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu, sy'n herio bron pob un plentyn yn gyson.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n fanwl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl y plant. Cydlynir y ddarpariaeth ar gyfer y medrau hyn yn effeithlon fel bod cydlyniad ym mhrofiadau'r plant ar draws y cwricwlwm. Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn dda iawn. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu'r iaith yn arbennig o dda. Maent yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg cymaint ag sy'n bosibl yn eu dysgu.

Mae'r deunyddiau a'r dulliau cyflwyno yn cael eu haddasu'n dda i wneud y cwricwlwm yn hygyrch i bob plentyn. Mae'r cynllunio o wneud marciau a thasgau rhif ar draws yr holl feysydd dysgu yn ysgogol a deniadol. Maent yn ddilyniadol a heriol, sy'n annog plant i ffurfio llythrennau a rhifau mewn ffurfiau adnabyddus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn amlwg, sy'n cyfoethogi'r datblygiad o fedrau TGCh y plant.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn bositif iawn. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn ymweld â ffermydd lleol, archfarchnadoedd, parciau gwledig, y llyfrgell leol a chaffi'r pentref. Mae ymwelwyr, sy'n cynnwys milfeddyg, nyrs, plismon, drymiwr ac arbenigwyr natur yn addysgu plant yn arbennig o dda am eu cymuned a'r gweithgareddau bob dydd sy'n bodoli gerllaw.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol sy'n annog plant i ddangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali ac maent yn dysgu am Affrica trwy'r defnydd o storïau moesol. Mae'r profiadau a gynllunnir yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r byd i'r plant. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru yn ystyrlon, sy'n cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen.

**Addysgu: Da**

Mae addysgu'r ymarferwyr yn effeithio'n gadarnhaol iawn ar ddysgu'r plant. Mae gan yr holl ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu pob plentyn. Mae'r ymarferwyr yn chwarae rôl weithredol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac mae'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'u harbenigedd. Maent i gyd yn gadarnhaol iawn wrth i'r plant gyrraedd ac maent yn parhau gyda'r brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiwn.

Mae ymyrraeth gan oedolion yn sensitif a medrus, sy'n annog plant i gymell eu hunain wrth iddynt ddysgu. Mae cwestiynu'r ymarferwyr yn heriol ac mae'r ymarferwyr yn deall y pwysigrwydd i roi cyfleoedd i blant i ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ysgogol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blentyn ac arweinir gan ymarferwyr, sy'n cyrraedd anghenion unigol y plant yn briodol. Maent yn gwneud defnydd da a dychmygus o adnoddau ac maent wedi trefnu'r lleoliad yn bwrpasol tu mewn a thu allan i dargedu cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae trefniant o'r fath ym mhob maes dysgu yn sicrhau bod yr holl blant yn cyfranogi a chyfrannu'n ystyrlon at dasgau. Mae hyn yn ddefnydd effeithiol iawn o adnoddau'r lleoliad i gefnogi'r addysgu.

Mae'r holl ymarferwyr yn amseru cyflwyniadau i dasgau'n effeithiol i gynnal diddordeb pob plentyn yn y gweithgaredd. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn dda iawn. Mae'r holl ymarferwyr yn fodelau iaith da iawn yn y Gymraeg, sy'n annog pob plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd mewn arferion bob dydd. Mae cwestiynu'r ymarferwyr yn y Gymraeg yn herio plant yn gyson, sy'n datblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu'n dda.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd ysgogol, heriol a chyffrous, y tu mewn a thu allan. Mae hyn yn annog ymglymiad, cyfranogiad a mwynhad y plant. Er enghraifft, mae cyfleoedd i wneud marciau yn yr ardal allanol yn annog plant i dynnu llun a dechrau ymarfer ysgrifennu cynnar yn annibynnol. Mae'r ymarferwyr yn caniatáu i blant i symud yn annibynnol rhwng yr ardaloedd dysgu dan do a'r awyr agored heb gyfarwyddyd oedolion ac mae hyn yn gryfder yn y lleoliad. Mae hyn yn cynyddu eu dewisiadau ar sut i gwblhau tasgau ac mae'n cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol.

Mae gweithdrefnau asesu sefydlog yn bodoli. Mae cofnodion o gyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n drylwyr. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau bob amser yn arwain, yn ddigon manwl, at gynllunio'r camau nesaf yn dysgu plant unigol. Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda am gyflawniadau eu plant. Mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg drwy bolisi drws agored y lleoliad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn synhwyrol, drwy gyfleoedd cyson i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo.

Mae'r ymarferwyr yn caniatáu i blant i weini diodydd i eraill a dosbarthu ffrwythau a byrbrydau wrth y byrddau bwyta. Mae hyn yn annog plant i gymryd eu tro'n gwrtais yn ystod amser byrbryd. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae trefniadau pwrpasol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant, sy'n dylanwadu ar ddysgu plant yn bwrpasol. Mae'r rhain yn cynnwys y defnydd o dir a chyfleusterau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau corfforol.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i'r plant i ailgylchu bwyd, papur, cardbord a photeli plastig. Maent hefyd yn compostio bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn dda, sy'n dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac mae pob plentyn yn gofyn am help a chefnogaeth pan fo'i angen.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu'r plant yn effeithiol pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd. Felly, mae'r lleoliad yn targedu plant yn dda gyda chefnogaeth ychwanegol pan fo angen a thrwy ddefnyddio'r arbenigedd yng nghanolfan arbenigol yr ysgol. Mae'r ymarferwyr yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol. Yr arweinydd yw'r cydlynydd dysgu ychwanegol ac mae hi'n gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae ethos y lleoliad yn adlewyrchu awyrgylch groesawgar, hapus a chynhwysol iawn. Mae hyn yn seiliedig ar weithredu polisïau ac arferion sy'n parchu hawliau pob unigolyn o fewn y lleoliad ac fel rhan o gymuned yr ysgol. Mae ymarferwyr y lleoliad yn trin pawb yn gyfartal. Mae'r ethos yn cyfrannu'n helaeth at awydd y plant i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau a'r safonau cadarnhaol o ymddygiad o fewn y lleoliad. Mae gan yr holl ymarferwyr gymwysterau addas a phrofiad da. Mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Mae'r lleoliad yn defnyddio arbenigedd ymarferwyr yn dda iawn wrth gynllunio, addysgu a goruchwylio gweithgareddau.

Mae'r amgylchedd dysgu o ansawdd uchel a threfniadaeth yr ardaloedd dysgu yn orchestol. Mae'r lleoliad yn ddychmygus iawn wrth wneud defnydd llawn o'r adeilad, er enghraifft drwy drefnu meysydd dysgu yn greadigol trwy ddefnyddio canopïau ac offer arall i gwrdd ag anghenion plant yn eithriadol o dda. Mae ymestyn y dysgu a'r meysydd dysgu i'r awyr agored wedi bod yn llwyddiannus dros ben wrth ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol iawn.

Mae cyfleusterau helaeth yn yr ardal allanol ac mae'r lleoliad hefyd yn defnyddio tir yr ysgol yn llwyddiannus fel yr offer anturus. Mae ystod o adnoddau y tu allan i'r adeilad, a'r ardaloedd dysgu pwrpasol o fewn yr adeilad, yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd cadarn mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud o'u mannau cychwyn. Er enghraifft, mae'r ardaloedd tyfu ar gyfer llysiau, blodau a pherlysiau, y gegin fwd, yr ardaloedd glaswelltog a'r mannau chwarae rôl yn yr awyr agored, i gyd yn cyfrannu at greu amgylchedd dysgu awyr agored o ansawdd uchel. Mae hyn yn ysgogi plant i gyflawni'n dda mewn awyrgylch eithriadol o ddiddorol a deniadol.

Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel i ymateb i anghenion dysgu plant, fel offer TGCh, ystod eang o lyfrau darllen ac adnoddau dysgu pwrpasol. Mae'r adeilad a thir y lleoliad yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda iawn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau. Mae'r arweinydd yn rheoli addysgu a dysgu'n dda ac mae disgwyliadau'r holl ymarferwyr yn uchel. Mae'r amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau'r arweinydd, y person cofrestredig, sy'n bennaeth ar yr ysgol, a llywodraethwr cyfrifol o'r ysgol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth effeithiol, sy'n targedu anghenion plant yn dda.

Mae'r lleoliad yn gosod ac yn monitro'r cynlluniau ar gyfer gwella'n bwrpasol yn erbyn camau gweithredu ac amserlenni realistig. Mae'r arweinydd, cynrychiolwyr o gorff llywodraethol yr ysgol a'r person cofrestredig yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn ddiwyd fel tîm. Mae hyn yn sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel, sy'n effeithio'n dda ar ganlyniadau plant. Caiff y ddarpariaeth ei fonitro'n drylwyr, sy'n cynnwys adolygiad rheolaidd a thrylwyr o ansawdd yr addysgu gan yr arweinydd a'r person cofrestredig. Mae hyn yn arfer da.

Mae'r lleoliad yn defnyddio arweiniad yr awdurdod lleol yn dda. Mae'r arfer hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd ymarferwyr. Mae'r arweinyddiaeth ofalgar yn cymell ymarferwyr tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. Mae'r arweinydd, ymarferwyr a rheolwyr yn cynllunio'n bwrpasol i ddarparu profiadau dysgu diddorol ar gyfer plant, y tu mewn a thu allan.
Mae'r arweinydd a'r rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn gyson i greu gwelliannau, fel yr angen i wella medrau technoleg gwybodaeth y plant ac i ddarparu gwell cyfleoedd rhifedd.

Mae gan y lleoliad ffocws clir ar sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r lleoliad. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ymarferol, wedi ei anodi'n fanwl fel mae gwelliannau'n digwydd. Mae'r lleoliad yn nodi'r blaenoriaethau priodol ar gyfer gwelliant trwy weithdrefnau hunanarfarnu cadarn. Mae'r arweinydd a'r rheolwyr yn cynnal gwerthusiadau cyson i sicrhau bod adnoddau ar gael i gwrdd â'r amcanion gwella.

Mae'r ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant perthnasol a buddiol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r arweinydd, ymarferwyr a rheolwyr yn nodi anghenion hyfforddi a datblygu'n glir. Mae polisïau'n weithredol ac mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen a thargedu darpariaeth llythrennedd a rhifedd yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu a chynllunio i ddatblygu yn rhan reolaidd a phwysig o fywyd gwaith y lleoliad. Mae'n nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, monitro darpariaeth ac asesu deilliannau plant yn effeithiol. Mae'r broses yn cynnwys adolygiadau trylwyr o bob agwedd ar fywyd y lleoliad a'r modd y mae'r rhain yn effeithio ar y safonau mae'r plant yn cyflawni. Mae'r rheolwyr yn chwarae rhan effeithiol yn y broses, sy'n cynnwys adolygiad blynyddol o waith y lleoliad gan aelodau'r corff llywodraethol.

Mae'r holl ymarferwyr yn cyfrannu'n llawn at y broses a'r ddogfen derfynol. Mae'r arweinydd yn rheoli'r lleoliad yn ddiwyd ar sail asesiad cywir o'i gryfderau a'i wendidau. Mae'r arweinydd a’r person cofrestredig yn arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn rheolaidd, sy'n targedu gwell cyfleoedd hyfforddi a datblygu i wella arferion addysgu. Mae'r arweinydd a'r corff llywodraethol yn cymryd camau i gynnal arfer effeithiol a gweithredu newidiadau'n llwyddiannus.

Mae'r hunanarfarniad yn ystyried barn plant, ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, rheolwyr a'r awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'n arwain at gynllun datblygu trylwyr. Mae'r cynllun datblygu yn monitro gwelliannau yn erbyn targedau clir a meini prawf llwyddiant. Mae'n rhoi blaenoriaeth i'r materion mwyaf pwysig i wella ac mae'n ariannu gwelliannau'n dda, sy'n cynnwys y llwyddiant o ennill cyllid wrth grantiau. Felly, mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy gynlluniau dyddiol a hir dymor y lleoliad.

Trwy gynnwys yr holl ymarferwyr yn y broses hon, maent yn awyddus i dderbyn syniadau newydd ac i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio, a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Er enghraifft, cyngor a hyfforddiant yr awdurdod lleol ar sut i weithredu asesiadau newydd i nodi man cychwyn pob plentyn. Mae arferion hunanwerthuso o'r fath yn effeithio ar ansawdd y profiadau dysgu a'r addysgu'n dda. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r lleoliad yn rhannu ei arferion da iawn yn narpariaeth ac addysgu gyda lleoliadau eraill yn yr awdurdod lleol. Mae'n cyfrannu'n effeithiol at hyfforddiant ac mae'r lleoliad yn esiampl o arfer da. Mae hyn yn cryfhau gallu'r ymarferwyr yn effeithiol iawn i sicrhau gwelliannau parhaus. Mae'n cyfrannu at greu ethos o ddarparu darpariaeth orchestol, arloesol a chreadigol, dan do ac yn yr awyr agored.

Mae gan y lleoliad berthynas gadarnhaol iawn gyda'r rhieni. Mae cyfathrebu effeithiol iawn yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i rieni yn rheolaidd, sy'n cynnwys crynodeb o weithgareddau'r sesiwn i rieni ddarllen ar fwrdd pan fydd plant yn cael eu casglu.

Mae'r arweinydd yn cysylltu'n effeithiol â'r ddarpariaeth dwy flwydd oed yn yr ysgol ac mae'r lleoliad yn cysylltu â rhieni yn uniongyrchol cyn i'w plant ddechrau yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn llwyddiannus iawn wrth gefnogi rhieni plant sy'n fregus er mwyn sicrhau llwyddiannau gorau posibl i'w plant. Er enghraifft, drwy roi cefnogaeth glir ac adnoddau pwrpasol i rieni a phlant er mwyn gwella sgiliau bywyd trwy ddefnyddio canolfan arbenigol yr ysgol ar gyfer plant ag anghenion dwys. Mae hyn yn ddefnydd ardderchog o ddarpariaeth yr ysgol i ymyrryd a thargedu anghenion plant yn gynnar.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau effeithiol iawn gyda'r ysgol. Mae'r cydweithio a chyd-gynllunio yn datblygu trefniadau pontio gorau posibl ar gyfer y plant pan fyddant yn dechrau'n yr ysgol. Mae'r cynllunio ar y cyd a chytûn yn sicrhau bod plant yn cael arweiniad pwrpasol ac yn caniatáu plant i wneud cynnydd clir yn y cam nesaf o'u haddysg. Felly, mae'r trefniadau ar gyfer pontio yn hyrwyddo lles plant yn effeithiol iawn yn ystod y trosglwyddo i'r brif ysgol. O ganlyniad i'r cydweithio hyn, mae plant yn datblygu eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol a rheoli'r trosglwyddiad yn dda iawn.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ac yn chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol gyfan. Mae portffolios defnyddiol, sy'n seiliedig ar arferion yr ysgol, yn enghreifftio'n gywir safonau plant a darpariaeth y lleoliad.

Mae perthynas ragorol rhwng yr ysgol a'r ganolfan arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dwys. Ceir ymweliadau gwerthfawr gan yr athrawon o'r ganolfan i'r lleoliad i roi cyngor ac ymyrryd gyda chefnogaeth ychwanegol ar gyfer plant os oes angen. Mae hyn yn paratoi plant yn dda ar gyfer dechrau yn yr ysgol yn llawn amser.

Mae yna nifer o gysylltiadau â'r gymuned leol, gan gynnwys llawer o gysylltiadau effeithiol gyda busnesau lleol, sy'n cynnwys ffermydd, caffis a chymdeithasau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y lleoliad ac ehangu profiadau plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r lleoliad wedi datblygu cydweithio effeithiol iawn gyda swyddogion y Parc Cenedlaethol fel rhan o raglen i hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o ddiogelwch amgylcheddol a'r ardal leol. Mae swyddogion wedi cydweithio gyda'r plant a'r ymarferwyr ar ystod o weithgareddau, sy'n hyrwyddo nifer o fedrau pwysig gan gynnwys gofalu am blanhigion, arsylwi ar nodweddion y tymhorau yn yr ardd wyllt, ac arsylwi ar anifeiliaid ac adar mewn cynefinoedd gwahanol.

Mae gan y lleoliad berthynas adeiladol iawn gyda'r awdurdod lleol a'r ysgol ar reolaeth ariannol ac mae'n manteisio i'r eithaf ar y cytundebau sydd ar gael iddo.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn gryf ac mae'n anelu'n gyson i wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Mae'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. Mae'r cynllunio strategol yn cefnogi addysgu effeithiol yr holl ymarferwyr.

Mae'r arweinydd a'r rheolwyr yn llwyddo i sicrhau bod digon o ymarferwyr cymwys â hyfforddiant o fudd gan y lleoliad.  Mae'n gymuned ddysgu gref, sydd â diwylliant o gydweithio rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â'r lleoliad, gan gynnwys cysylltiadau rhagorol gyda'r ysgol.  Mae systemau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn arwain at well addysgu.

Mae'r lleoliad yn rheoli ei hadnoddau yn bwrpasol i gefnogi dysgu ac i greu gwelliannau.  Mae'r arweinydd a'r rheolwyr â dealltwriaeth glir o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol â'u camau arfaethedig ar gyfer gwella'n effeithiol.  Mae hyn yn cynnwys defnydd effeithlon o gyllid grant.  Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith uniongyrchol ar gyflawniadau a lles plant.  Mae'r lleoliad yn darparu’r safonau gorau posibl ynglŷn â’r adeilad ac adnoddau o fewn ei gyllideb.  Mae'r amgylchedd dysgu a'r partneriaethau sy'n bodoli yn rhagorol.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd deilliannau llwyddiannus y plant, darpariaeth effeithiol yr ymarferwyr a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 36 | 34 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 36 | 33 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 35 | 32 | 3 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 35 | 34 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 97% | 3% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 18% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 33 | 26 | 7 | 0 | 0 | 3 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 35 | 34 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 97% | 3% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 35 | 33 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 34 | 31 | 3 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 35 | 33 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 30 | 28 | 2 | 0 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 36 | 28<br>78% | 8<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 31% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 36 | 34<br>94% | 2<br>6% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 36 | 30<br>83% | 6<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 35 | 29<br>83% | 5<br>14% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 34 | 31<br>91% | 3<br>9% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 36 | 34<br>94% | 2<br>6% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |